# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr Paul Ellis, Douglas Massie Fowlie, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, G O Jones, Margaret Murley Roberts a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Llinos Medi, a Alwen P Watkin |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi, 2022.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 APWYNTIO STAFF**

**Pennaeth Democrataidd**

Cafodd proses gyfweld ffurfiol ei hymgymryd â hi o'r ymgeiswyr a oedd ar y rhestr fer ar gyfer y swydd uchod.

Yn dilyn y cyfweliad ffurfiol, **PENDERFYNODD y Pwyllgor Penodiadau benodi Mr Dyfan Sion i'r swydd Pennaeth Democrataidd.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**